# SL(5)571 – Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Mae adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio “disgybl” fel person y darperir addysg mewn ysgol ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i rai eithriadau).

Mae'r Hysbysiad hwn yn addasu cymhwysiad adran 3 fel nad yw person i gael ei drin fel disgybl mewn ysgol yng Nghymru dim ond oherwydd bod addysg yn cael ei darparu i'r unigolyn hwnnw yn yr ysgol dros dro, am resymau sy'n ymwneud ag achosion o’r coronafeirws neu ei drosglwyddiad.

Dim ond at ddibenion cofrestru disgyblion y mae'r addasiad hwn yn effeithiol. Mewn cyd-destunau heblaw cofrestru, ni chaiff ystyr “disgybl” yn adran 3 ei addasu.

Mae'r Hysbysiad yn nodi ym mharagraffau 2(4) a (5):

- Mae anfanteision posibl i ddisgyblion ysgolion sy’n cael plant dros dro os yw’r plant hynny yn dod yn ddisgyblion cofrestredig. Mae’r anfanteision hyn yn cynnwys y posibilrwydd o ddosbarthiadau mawr ac annhegwch i blant eraill a fyddai’n cael blaenoriaeth ar gyfer cael eu derbyn
- Bydd yr addasiad [ar gyfer adran 3] yn atal canlyniadau nas bwriadwyd sy’n codi wrth i ddisgyblion cofrestredig un ysgol fynychu ysgol arall dros dro.

Mae'r addasiad hwn o adran 3 yn gymwys yn ystod y cyfnod 29 Mehefin 2020 hyd 28 Gorffennaf 2020.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Hysbysiad hwn:

**1. Deddf y Coronafeirws 2020 a gosod gerbron y Senedd**

Nodwn fod Deddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, trwy hysbysiad, addasu deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru dros dro.

Rydym hefyd yn nodi nad yw Deddf y Coronafeirws 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Hysbysiad gael ei osod gerbron y Senedd, ond bod yr Hysbysiad wedi ei **gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.**

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Mehefin 2020**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**